



# Adroddiad Blynyddol Blwyddyn 2017 – 2018

Mehefin 2019



Tribiwnlys Tir  
Amaethyddol  
*Cymru*

Agricultural  
Land Tribunal  
*Wales*

# Cynnwys

<b>Rhagair</b>		3
<b>Adran 1</b>	Amdanom ni	4
<b>Adran 2</b>	Perfformiad a Chynnydd	8
<b>Adran 3</b>	Ein Cwsmeriaid	12
<b>Adran 4</b>	Blaenoriaethau Busnes	13
<b>Adran 5</b>	Gwariant	14

# Rhagair

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2017/18 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Dyma fy Adroddiad cyntaf ers olynu James Buxton fel Cadeirydd ym mis Ebrill 2018.

Mae'r Tribiwnlys yn parhau'n weithgar iawn. Fel mae'r Adroddiad hwn yn ei ddangos, parhau i gynyddu mae ei lwyth gwaith o geisiadau'n ymwneud ag anghydfodau dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ac anghydfodau draenio dan y Ddeddf Draenio Tir 1991.

Er mwyn ystyried y ffaith bod gennym fwy o waith, rwy'n falch bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Syr Wyn Williams, wedi cymeradwyo 'traws-ddefnydd' dau farnwr ychwanegol o'r Tribiwnlysoedd eraill yng Nghymru - y Barnwr Trefor Lloyd a'r Barnwr Claire Jones. Mae'r ddau'n siaradwyr Cymraeg, sy'n ein galluogi ni i weithredu safonau'r Gymraeg yn fwy effeithiol, ac i gynnal gwrandawiadau a gohebu drwy gyfwng y Gymraeg. Cawsom hefyd y pleser o groesawu dau aelod draenio newydd - Dr Phebe Mann a Jack Smyth - a benodwyd trwy gystadleuaeth a gynhaliwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Nod y Tribiwnlys yw darparu gwasanaeth arbenigol, effeithlon a chyfeillgar i ddefnyddwyr am y gost isaf i ymglyfreithwyr ac i'r pwrs cyhoeddus. Yn wahanol i'r system lysoedd, ni thelir unrhyw ffi wrth wneud cais i'r Tribiwnlys, ac ymhob achos fwy neu lai, nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu costau'r ochr arall, waeth beth fo'r canlyniad. Yn wahanol i gyflafareddu preifat neu i benderfyniadau trydydd parti, ni thelir unrhyw ffi gan y partion i'r panel sy'n gwrandao ar achos. Mae'r Tribiwnlys felly'n ffordd fwy costeffeithiol o ddatrys anghydfodau.

Dyma gyfnod cyffrous i'r Tribiwnlys sy'n rhan o'r system sicrhau cyfiawnder yng Nghymru. Rwy'n ategu'r sylwadau yn adroddiad y llynedd a oedd yn croesawu ystyriaeth Llywodraeth Cymru o ganlyniadau ymgynghoriad ynglŷn ag ymestyn awdurdodaeth y Tribiwnlys o bosibl. Os caiff awdurdodaeth y Tribiwnlys ei ymestyn, dylai hynny fod o fudd go iawn i'r gymuned amaethyddol yng Nghymru.

Ysgrifennaf hefyd yng nghyd-destun gwaith y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru, dan arweiniad yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, y disgwylir adroddiad ganddo yn ddiweddarach eleni.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith, roedd yn bleser gennyf siarad am waith y Tribiwnlys gyda'r Comisiwn, yn ogystal â sôn am ein gwaith yng nghynhadledd 'Cymru'r Gyfraith' a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym mis Hydref 2018, ac mewn cyfarfodydd â barwniaeth llysoedd Cymru, cangen Cymru a Gorllewin Lloegr o'r Gymdeithas Gyfraith Amaethyddol a changen Gogledd Cymru o CAAV.

Mae'r Tribiwnlys yn Dribiwnlys arbenigol, ac rwy'n parhau'n ddiolchgar i banel y Tribiwnlys o ffermwyr, tiffeddianwyr ac arbenigwyr ar ddraenio. Rydym yn pwysu'n fawr ar eu gwybodaeth a'u profiad. Mae gan bob cwr o Gymru, a phob math o weithgaredd amaethyddol yng Nghymru, lais yn y Tribiwnlys.

Hoffwn ddiolch i dîm gweinyddol y tribiwnlys am eu hymroddiad parhaus a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn a aeth heibio.

**Christopher McNall**  
Gan y Cadeirydd

# Adran 1 – Amdanon Ni

## Yr yr adran hon:

- Sail y Tribiwnlys
- Swyddogaethau'r Tribiwnlys
- Rheolau/Rheoliadau'r Tribiwnlys
- Proses y Tribiwnlys
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Penodiadau ac Ymddeoliadau
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Defnyddio'r Tribiwnlys

## Sail y Tribiwnlys

Sefydliad statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 yw Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (TTA Cymru), ac mae ganddo awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru.

Mae'r tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth. Mae TTA Cymru yn chwarae rhan bwysig yn penderfynu ynghylch anghydfodau a phroblemau eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n deillio o gytundebau tenantiaeth dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae TTA Cymru hefyd yn penderfynu ynghylch anghydfodau yn ymwneud â draenio tir amaethyddol dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Nod cyffredinol TTA Cymru yw:

- Darparu gwasanaeth cost-effeithiol sy'n perfformio'n dda i ddefnyddwyr y tribiwnlys a'i aelodau
- Sicrhau bod pob agwedd ar waith y tribiwnlys yn cael ei weinyddu mewn modd sy'n sicrhau dyfarniad teg, annibynnol ac amserol
- Gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol sy'n gymwys yng Nghymru.

## Swyddogaethau'r Tribiwnlys

Mae TTA Cymru yn ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â:

Draenio tir:

- Adfer neu wella ffosydd.

Cytundebau tenantiaeth:

- Hysbysiad i adael daliad
- Olyniaeth ar ôl marwolaeth
- Olyniaeth ar ôl ymddeoliad.

Ceisiadau amaethyddol:

- Hwsmonaeth wael
- Llosgi grug neu laswellt

- Cyfarpar sefydlog
- Gwelliant/gwelliannau hirdymor
- Gerddi marchnad.

## Rheolau/Rheoliadau'r Tribiwnlys

Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r tribiwnlys wedi'u nodi yn y canlynol:

- Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Ardal) 1982 (O.S. 1982/97)
- Deddf Draenio Tir 1991
- Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007.

## Proses y Tribiwnlys

I wneud cais neu apêl, rhaid ichi lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol i TTA Cymru. Derbynnir ceisiadau drwy'r post, ffacs neu e-bost. Nid oes unrhyw ffioedd am wneud cais i'r tribiwnlys.

Bydd y tribiwnlys yn cydnabod eich cais. Bydd y tribiwnlys yn cofrestru eich cais cyn pen 10 niwrnod gwaith neu bydd yn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth. Ar ôl ei gofrestru, anfonir copi o'r Cais at y parti a enwir fel yr Ymatebydd.

Nid yw cais i TTA Cymru yn arwain o reidwydd at wrandawriad. Caiff llawer o achosion eu setlo rhwng y partion, ac nid oes angen gwrandawriad. Os bydd y cais yn mynd yn ei flaen i wrandawriad tribiwnlys, mae'r panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol a dau aelod lleyg. Penodwyd aelodau lleyg am eu harbenigedd cyffredinol a'u gwybodaeth.

Cyn bron pob gwrandawriad Tribiwnlys, bydd panel y Tribiwnlys yn archwilio'r tir sy'n gysylltiedig â'r cais. Caiff y tribiwnlys archwilio'r adeiladau, y tir ac unrhyw dda byw, cyfarpar a chynnyrch.

Fel arfer, caiff gwrandawriadau'r tribiwnlys eu cynnal yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at y tir dan sylw. Rheolir gwrandawriadau'r tribiwnlys gan y cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd, ac mae'n rhaid iddo fod yn gymwys yn gyfreithiol. Aelodau lleyg yw'r ddau aelod arall o'r panel, ac mae ganddynt wybodaeth a phrofiad o ffermio, draenio a materion tîrffeddiawyr yng Nghymru.

Mae'r Tribiwnlys yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar y wefan ar gyfer TTA Cymru. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau TTA Cymru ar sail gyfyngedig i Siambr Tiroedd yr Uwch Tribiwnlys.

Rhoddir canllawiau a gwybodaeth lawn am y tribiwnlys a'i weithdrefnau ar wefan TTA Cymru. Fel arall, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gael cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 8.


## Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd ac aelodau lleyg. Caiff penodiadau eu gwneud ar ôl hysbysebu swyddi gwag, ac ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gynnal proses gyfweld gystadleuol.

**Cadeirydd:** Mae gan y cadeirydd gyfrifoldeb barnwrol am y tribiwnlys.

**Aelodau Lleyg:** Mae gan aelodau lleyg amrywiaeth o wybodaeth ac arbenigedd perthnasol a fydd ar gael iddynt ymhob gwrandawriad.

**Yr Ysgrifenyddiaeth:** Yr ysgrifenyddiaeth sy'n bennaf cyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd. Mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r tribiwnlys. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r cadeirydd ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau cychwynnol cyn gwrando ar achosion, a bydd yn trosglwyddo penderfyniadau a chyfarwyddiadau'r cadeirydd i'r partion yn ysgrifenedig. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr tribiwnlysoedd, ac mae'n bresennol mewn rhai gwrandawriadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



## Penodiadau

Yn ystod 2017-2018 cafwyd:

- 2 benodiad
- 1 ymddeoliad
- 1 ymddiswyddiad.

## Arfarniadau

Ni chynhaliwyd unrhyw arfarniadau yn ystod 2017-2018.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddiant blynyddol y Tribiwnlys yn ystod mis Medi 2018. Y bwriad yw cynnal y digwyddiad nesaf yn ystod Medi 2019.

## Cysylltu â'r Tribiwnlys

I gysylltu ag ysgrifenyddiaeth TTA Cymru:

**Cyfeiriad y Tribiwnlys:** Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Spa Road East  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5HA

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 03000 259809

E-bost y Tribiwnlys: [agriculturallandtribunalwales@llyw.cymru](mailto:agriculturallandtribunalwales@llyw.cymru)

Gwefan y Tribiwnlys: [alt.gov.wales](http://alt.gov.wales)

## Defnyddio'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff y Tribiwnlys eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawriad Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawriad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawriad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd anabledd neu ofynion eraill o ran mynediad gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawriad, yn effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawriad.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y mynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

## Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth.

Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

- nifer y ceisiadau a gafwyd ac a gofrestrwyd
- y math o geisiadau a gafwyd ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- canlyniad y ceisiadau.

Tabl 2.1: Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd 2017-18





Tabl 2.2: Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn a Math o Gais yn ystod 2013-2018\*

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd				
	2017-18	2016-17	2015-16	2014-15	2013-14
Draenio Tir	4	3	6	6	0
Olyniaeth ar ôl Marwolaeth	11	11	7	12	8
Olyniaeth ar ôl Ymddeol	1	1	0	0	2
Cydsyniad i Hysbysiad i Roi'r Gorau	1	2	7	3	3
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	0	0	0	1
Cyfarpar Sefydlog	0	0	0	1	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>17</b>	<b>17</b>	<b>20</b>	<b>22</b>	<b>14</b>


Tabl 2.3: Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn yn ystod 2013-2018\*

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd (yn cynnwys yr hyn a ddygwyd ymlaen o 2016-2017)				
	2017-18	2016-17	2015-16	2014-15	2013-14
Draenio Tir	5	1	2	2	1
Olyniaeth ar ôl Marwolaeth	14	8	5	4	8
Olyniaeth ar ôl Ymddeol	2	0	0	2	1
Cydsyniad i Hysbysiad i Roi'r Gorau	2	4	3	4	2
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	0	0	1	0
Cyfarpar Sefydlog	0	0	0	1	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>13</b>	<b>10</b>	<b>14</b>	<b>12</b>

\* Yn ystod 2013-2018, ni chafwyd unrhyw geisiadau'n ymwneud â:

- cydsynio i welliannau hirdymor
- llosgi grug neu laswellt
- gerddi marchnad.

Tabl 2.4: Hynt Ceisiadau yn 2017-2018 yn ôl y Canlyniad



Tabl 2.5: Hynt Ceisiadau yn 2017-2018 yn ôl Math o Achos a Chanlyniad

Math o Gais	Tynnu'n ôl	Gorchymyn Cydsyniad	Wedi'u Gwrthod	Wedi'u Cadarnhau	Yn Aros
Draenio Tir	1	0	3	1	11
Olyniaeth ar ôl Marwolaeth	7	7	0	0	16
Olyniaeth ar ôl Ymddeol	0	0	2	0	0
Cydsyniad i Hysbysiad i Roi'r Gorau	2	0	0		4
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	0	0	0	0
Cydsyniad i Welliannau Hirdymor	0	0	0	0	0
Cyfarpar Sefydlog	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>10</b>	<b>7</b>	<b>5</b>	<b>1</b>	<b>31</b>

Yn ystod 2017-2018, cafwyd:

- 8 gwrandawriad ffisegol
- 7 gwrandawriad ar bapur (lle byddai aelodau'r panel yn cwrdd heb i'r partïon fod yn bresennol)
- 2 gynhadledd ffôn (lle byddai aelodau'r panel yn cymryd rhan ar y ffôn).

## Adolygiadau ac apeliadau pellach


Gall partion wneud ceisiadau am adolygu Penderfyniad y Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw Geisiadau.

Gall partion apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar bwynt cyfreithiol. Yn gyntaf, rhaid gofyn i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru am ganiatâd i apelio. Bydd llythyr penderfyniad y tribiwnlys yn rhoi gwybod ichi am unrhyw ddyddiadau cau. Ni ddaeth unrhyw apeliadau i law yn ystod y flwyddyn.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y caiff gwasanaethau eu darparu, mae gennym ni ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym ni gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg pryd y bydd cais yn dod i law hyd at y Gwrandawid neu ei waredu. Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd sy'n deillio o arolygon cyfnodol ar foddhad cwsmeriaid.



## Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion ffurfiol i'r Tribiwnlys yn ystod 2017-2018.

# Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

## Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

## Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn gwneud ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau i gwsmeriaid, a'i nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn.

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, fe wnaeth y Tribiwnlys ddsbarthu arolwg boddhad cwsmeriaid gyda phob penderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys. Bydd adborth yr arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Cawsom 1 ffurflen wedi'i llenwi yn ystod y cyfnod:

- dywedodd y cwsmer fod y Tribiwnlys yn gymorth wrth ymdrin ag ymholiadau
- dywedodd y cwsmer ein bod wedi ymateb yn gyflym a'u bod yn fodlon â'r wybodaeth a gafwyd
- roedd y cwsmer yn cytuno bod y Tribiwnlys wedi prosesu eu cais yn effeithlon.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

## Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2017- 2018

Mae'n bwysig fod y tribiwnlys yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r modd y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau Busnes 2017-2018

- Parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel gan sicrhau bod y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni.
- Gweithredu Arfarniadau Gwrandawiaidau'r Aelodau.
- Parhau i fonitro a diweddarau Gwefan TTA Cymru.
- Trefnu cynhadledd hyfforddiant flynyddol i aelodau'r tribiwnlys, gan ganfod ac ymateb i anghenion hyfforddiant.
- Sicrhau bod y Tribiwnlys yn barod i weithredu safonau'r Gymraeg.

# Adran 5 – Gwariant

## Yn yr adran hon:

- Gwariant yn 2017-2018

## Gwariant yn 2017-2018

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion tribiwnlys	£31,000
Digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau)	£1,000
Hyfforddiant i'r Aelodau	£4,000
<b>Cyfanswm*</b>	<b>£36,000</b>

\* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf